



## Beth yw traws?

Mae traws yn derm cyffredinol am bobl y mae eu rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a roddwyd iddynt wrth eu geni. Er enghraifft, mae dyn traws yn rhywun sydd wedi trawsnewid o fod yn fenyw i fod yn ddyn. Nid yw pobl draws yn teimlo yn gyfforddus yn byw yn ôl y rhywedd y ganwyd hwy iddo. Maent yn cymryd camau difrifol, sy'n newid bywyd i newid eu rhywedd yn barhaol.

## Beth yw newid rhywedd?

Mae newid rhywedd yn golygu newidiadau cymdeithasol, meddygol, cyfreithiol a gweinyddol. Gall pobl draws newid eu henwau a'u rhywedd ar gyfer bron bob gwasanaeth heb newid eu rhywedd cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys pasbortau a thrwyddedau gyrru.

## Faint o bobl draws sydd yna?

Nid ydym yn gwybod. Nid oes data cadarn am y boblogaeth draws yn y Deyrnas Unedig yn bodoli. Rydym yn amcangyfrif yn ofalus bod tua **200,000-500,000** o bobl draws yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu amcangyfrif o'r boblogaeth a sut i wneud hynny.

## Ffeithiau a Ffigyrau

**Dywedodd 41%** o ddynion a menywod traws oedd yn ymateb i arolwg gan Stonewall eu bod wedi dioddef trosedd neu ddigwyddiad casineb oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd dros y 12 mis diwethaf. Canfu'r arolwg hefyd bod **25%** o bobl draws wedi profi digartrefedd ar ryw gyfnod yn eu hoed. Canfu ein harolwg o bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol ganlyniadau tebyg, gyda **67%** o ymatebwyr traws yn dweud eu bod wedi osgoi bod yn agored am eu hunaniaeth o ran rhywedd rhag ofn cael ymateb negyddol gan eraill.

## Sut gallwch chi newid eich rhywedd yn gyfreithlon?


Gall pobl draws newid eu rhywedd cyfreithiol trwy fodloni'r gofynion a nodir yn Ndedd Cydnabod Rhywedd 2004. Yna byddant yn derbyn Tystysgrif Cydnabod Rhywedd, a thrwy hynny bydd eu tystysgrif geni yn cael ei newid. Y gofynion yw:

1. Diagnosis meddygol o ddysfforia rhywedd
2. Adroddiad gan weithiwr meddygol proffesiynol yn rhoi manylion unrhyw driniaeth feddygol
3. Prawf o fod wedi byw am o leiaf ddwy flynedd yn y rhywedd y maent wedi newid iddo trwy, er enghraifft, gyfriflenni banc, slipiau cyflog a phasbort
4. Datganiad statudol eu bod yn bwriadu byw yn y rhywedd y maent wedi newid iddo hyd eu marwolaeth
5. Os yn briod, caniatâd eu priod
6. Talu ffi o £140 (neu brawf o incwm isel ar gyfer gostwng/cael gwared ar y ffi)
7. Cyflwyno'r dogfennau yma i Banel, nad yw'r ymgeisydd yn eu cyfarfod yn bersonol

## Faint o bobl sydd wedi newid eu rhywedd cyfreithiol?

Ers i'r Ddeddf ddod i rym mae **4,910** o bobl draws wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. Roedd **12%** o'r ymatebwyr traws i'r arolwg pobl hoyw, lesbiaidd, ddeurywiol a thrawsrywiol genedlaethol a oedd wedi dechrau neu gwblhau eu trawsnewidiad wedi cael un yn llwyddiannus, a dywedodd **7%** o'r rhai oedd yn gwybod amdanynt ond nad oedd ganddynt un neu heb ymgeisio am un na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael un.

## Pa gamau sy'n rhaid eu cymryd wrth drawsnewid rhywedd?



# Ymgynghoriad ar Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004

Mae'r Llywodraeth yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y ffordd orau i ddiwygio Deddf Cydnabod Rhywedd 2004. Mae arnom eisiau gwybod sut i wneud y broses o gydnabod rhywedd yn gyfreithiol yn llai biwrocraataidd ac ymwthgar. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol o ran sut y bydd y diwygiad yn edrych ond rydym wedi gwneud rhai penderfyniadau am yr hyn nad yw o fewn cwrmpas y diwygiadau hyn. Rydym hefyd yn ymwybodol bod camddealltwriaeth am yr hyn y gall diwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd ei gynnwys. Felly, rydym am roi eglurder o ran rhai materion sy'n cael eu codi yn gyson.

1

## Ni fydd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth o leoedd a gwasanaethau i fenywod yn unig

Mae'r Llywodraeth yn glir na fydd unrhyw newid i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau gynnog gwasanaethau ar wahân i wrywod a menywod, neu i un rhyw yn unig, yn amodol ar rai meini prawf. Gall y gwasanaethau hyn drin pobl sydd â'r nodwedd warchoddedig o ailbennu rhywedd, yn wahanol, neu eu heithrio'n llwyr, ond *dim ond* os yw'r weithred yn fodd cymesur o gyflawni nod dilyn. Yn bwysig iawn, dylai man cychwyn darparwr gwasanaeth fod i drin person traws yn y rhywedd y mae yn cysylltu ei hun ag ef, a gadael iddo/iddi gael mynediad at wasanaethau ar gyfer y rhywedd hwnnw *oni bai* y bydd, trwy wneud hynny yn methu darparu'r gwasanaeth hwnnw i ddefnyddwyr gwasanaeth eraill. Mae hyn yn golygu na all fod yn waharddiad cyffredinol, nac yn cael ei wneud yn fympwyol. Rhaid iddo fod am reswm gwirioneddol, o achos i achos. Er enghraifft, gall lloches trais domestig i fenywod yn unig gynnog gwasanaeth ar wahân i fenyw draws os gellir profi y byddai defnyddwyr gwasanaeth eraill yn cael eu heffeithio yn niweidiol wrth gynnwys y fenyw draws fel rhan o'r gwasanaeth arferol. Os bydd raid iddynt wedyn eithrio'r person traws hwnnw, dylent ystyried pa ddewisiadau eraill y gallant eu cynnig i'r person traws. Dyna yw'r gyfraith ers 2010 ac ni fydd yn newid.

2

## Ni fydd unrhyw newidiadau i'r llwybrau meddygol GIG i bobl draws

Mae llawer o bobl draws yn ceisio cael triniaethau meddygol a ddarperir gan y GIG. Mae ar bobl draws angen diagnosis o ddsyfforia rhywedd cyn cael unrhyw driniaeth. Nid yw'r llwybrau meddygol yn cael eu rheoleiddio gan y Ddeddf Cydnabod Rhywedd, ond gan y GIG. O ganlyniad, ni fydd diwygio'r Ddeddf yn cael dylanwad ar y camau meddygol y mae angen i bobl draws fynd trwyddynt ar gyfer eu trawsnewidiad meddygol dan y GIG.

3

## Ni fydd plant yn cael eu rhoi mewn risg

Ni fydd diwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn newid hawliau **cyfreithiol** plant traws. Y lleiafswm oedran ar gyfer cydnabod rhywedd yn gyfreithiol yw 18 oed, sy'n cyd-fynd â hawliau a chyfrifoldebau dinasgyddiaeth oedolyn, ac nid oes gan y Llywodraeth unrhyw fwrriad i newid hyn. Rydym hefyd wedi dweud na fydd darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn newid. O ganlyniad, ni fydd y trefniadau presennol o gael cyfleusterau ar wahân i'r ddau ryw, fel toiledau, ystafelloedd newid a llety ar y cyd ar deithiau ysgol yn newid. Penderfynir ar yr oedran ar gyfer cael triniaeth **feddygol** hunaniaeth o ran rhywedd gan y GIG, nid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Nid oes triniaeth lawfeddygol ar gael i bobl dan 18 oed. Mae hormonau traws ryweddol ar gael i'r rhai 16 oed a hŷn dan gyfarwyddyd. Dim ond pan fyddant yn cael cefnogaeth seicolegol barhaus y mae rhai dan oed sy'n draws yn derbyn triniaeth.

4

## Clywir pob barn yn yr ymgynghoriad

Rydym yn cydnabod bod llawer o wahanol farnau ar ddiwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Rydym wedi ymrwmo i glywed barn pawb. Bydd yr ymgynghoriad yn codi set agored o gwestiynau am ddiwygiadau posibl. Ar ôl casglu barn pawb, byddwn yn dwyn cynigion ymlaen. Yn ein cyfnod cyn yr ymgynghoriad, rydym wedi cyfarfod llawer o randdeiliaid hawliau menywod.

5

## Rydym wedi ymrwmo i wneud bywydau pobl draws yn haws

Mae pobl draws yn wynebu ymateb negyddol i'w hunaniaeth o ran rhywedd mewn cymdeithas a gallant ddod yn ddiodefnyddwyr troseddau casineb, cam-drin domestig ac aflonyddu yn syml oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd. Mae gan bobl draws eisoes yr hawl i newid eu rhywedd yn gyfreithiol, ac nid oes unrhyw awgrym y bydd yr hawl hwn yn cael ei ddileu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn yn syml beth yw'r ffordd orau i'r Llywodraeth wneud y system bresennol o dan y Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn wasanaeth gwell i'r bobl draws ac anneul hynny sy'n dymuno ei ddefnyddio. Nid yw'r ymgynghoriad hwn, felly, yn ystyried y cwestiwn a yw pobl draws yn bodoli neu a oes ganddynt yr hawl i newid eu rhywedd yn gyfreithiol. Mae pobl draws ac anneul yn aelodau o'n cymdeithas a dylent gael eu trin â pharch.